



# Cynllun Gwella Parthau Agored Gogledd Penarth

Medi 2016

## Cefndir

Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyfraniad adran 106 o £600,000 o'r datblygiad yn Penarth Heights. Yn benodol, mae hwn i'w ddefnyddio i uwchraddio a gwella Mannau Agored Cyhoeddus wrth ymyl y datblygiad. Y manau agored yng nghyffiniau'r safle yw:

- Man Agored Dingle, Windsor Road;
- Man Agored Plassey Square;
- Man Agored Paget Road; a
- Maes Hamdden Cogan

Ystyriwyd Plymouth Park ym Marina Penarth fel ardal i'w gwella hefyd, fodd bynnag, mae'r parc hwn yn berchen i Lywodraeth Cymru. Mae Cyngor Bro Morgannwg wrthi'n gohebu gyda'r swyddog perthnasol yn Llywodraeth Cymru i gadarnhau p'un ai a fyddai gwneud mân welliannau yn dderbyniol. Mae'r trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd.

Cyflawnwyd arolygon i lywio'r gwelliannau arfaethedig, yn ogystal ag ymweliadau safle a gynhaliwyd gan Brif Bensaer Tirlunio ac Adran Parciau'r ddinas.

Atodiadau 1 - 5 Mae'r rhain yn dangos y cynlluniau a baratowyd i nodi'r angen am welliannau ac enghreifftiau o'r gwaith y gellid ei wneud.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad o ddydd Llun 13 Mehefin i ddydd Llun 8 Awst 2016.

## Methodoleg

Er mwyn crynhoi barn trigolion lleol cafodd y cynllun ei hyrwyddo mewn papurau lleol. Cafodd ei hysbysebu ar wefan y Cyngor ac ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd. Dosbarthwyd 4,500 o daflenni i drigolion lleol.

Gwahoddwyd trigolion i ddweud eu dweud drwy un ai ymateb i'r arolwg ar-lein, drwy ysgrifennu at y Cyngor neu drwy fynychu un o'r pedwar sesiynau galw heibio a drefnwyd dros gyfnod o wythnosau yn olynol drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

Cysylltodd rhai trigolion â Thîm Cyfathrebu'r Cyngor dros y ffôn i drafod y cynigion yn fanylach gan nad oeddent yn gallu mynychu unrhyw un o'r sesiynau galw heibio. Ar ben hynny, anfonwyd copiâu caled o'r arolwg ar-lein i'r trigolion hynny, ynghyd â chopïau o'r cynlluniau ac amlen rhabost i'w galluogi i anfon ymateb ysgrifenedig.

## Canlyniadau

### Arolwg

Daeth 216 o ymatebion i law. Mae hyn yn llai na'r disgwyl o ystyried y diddordeb yn y project yn y cyfnod cyn lansio'r ymgynghoriad ac o ran nifer y taflenni a ddosbarthwyd.

### Proffil Atebwyr

Roedd 57% o'r 216 a ymatebodd yn ferched, 41% yn ddynion, dewisodd 2% nodi 'arall' pan ofynnwyd iddynt am eu rhyw.


Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr, 58%, yn 35 - 54 oed, roedd 4% o ymatebwyr yn 11 – 18 oed, 2% yn 19 – 24 oed, 17% yn 25 – 34 oed ac 16% yn 55 – 74 oed. Roedd 3% o ymatebwyr yn 75 mlwydd oed neu hŷn.

Pan ofynnwyd iddynt am anabledd, nododd 90% o ymatebwyr nad oedd anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor ganddynt a oedd yn effeithio ar eu gweithgareddau dyddiol. Disgrifiodd 7% eu hunain fel bod 'wedi'u cyfyngu ychydig' ac 1% wedi'u cyfyngu llawer. Roedd yn well gan 2.5% beidio â rhoi'r wybodaeth hon.

Nododd 186 o'r 216 eu codau post. Mae dadansoddiad o'r codau post dan sylw yn nodi bod 47% o'r ymatebwyr, a nododd eu codau post, yn byw yn ward Sant Augustine's ym Mhenarth. Mae 6% yn byw yn ward Plymouth, 12% yn byw yn Cornerswell a 5% yn byw yn Stanwell. Mae 20% o'r ymatebwyr a nododd eu cod post yn byw yn y Sili, 2% yn byw yn Ninas Powys, 2% yn byw yn Llandochau, ac mae 6% o ymatebwyr yn byw mewn ardaloedd eraill ym Mro Morgannwg.

### Man Agored Dingle

Roedd rhan gyntaf yr arolwg yn gofyn i ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'r gwelliannau a awgrymwyd ar gyfer Man Agored Dingle ar Windsor Road. Mae'r siart isod yn dangos eu hymateb.



Roedd ymatebwyr o blaid yr holl opsiynau a gynigiwyd gan y Cyngor ar wahân i'r offer campfa awyr agored. Cafwyd rhai sylwadau'n ymwneud â ph'un ai a oedd yr offer hwn yn angenrheidiol neu ai dyma'r lleoliad gorau ar gyfer yr offer.

Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr a hoffent awgrymu unrhyw welliannau eraill yn y man agored hwn. Daeth y themâu canlynol i'r amlwg yn y 59 o sylwadau a wnaed:


- Cynna/gwella'r amgylchedd naturiol cyn belled â phosibl;
- mae offer campfa awyr agored yn syniad da ond ni wneir llawer o ddefnydd ohono, awgrymodd rhai y dylid rhoi'r offer mewn lleoliadau eraill;
- cynyddu'r golau sy'n dod i mewn i'r parc / ychwanegu golau ar gyfer nosweithiau'r gaeaf;
- offer chwarae / rhywbeth i blant;
- mae baw cŵn yn broblem; a
- gwella cysylltiadau beicio ag ardaloedd y tu allan i'r parc.

Pan ofynnwyd am unrhyw welliannau y gellir eu gwneud i Windsor Road i wella'r ardal gyfan, gwnaeth yr ymatebwyr awgrymiadau tebyg i'r canlynol:

- gosod arwyneb newydd ar y ffyrdd a phalmentydd;
- defnyddio mesurau arafu traffig i leihau cyflymder traffig; a
- man croesi diogelach i'r parc;

## Plassey Square

Mae'r siart isod yn dangos yr ymateb cadarnhaol i'r gwelliannau a gynigir ar gyfer Plassey Square.



Uwchraddio'r ardal chwarae a gwella'r dodrefn yn y safle oedd y cynnig mwyaf poblogaidd o'r rhain gydag 88% ac 87% o ymatebwyr o'u plaid yn y drefn honno. Y lleiaf poblogaidd o'r cynigion oedd creu llwybrau newydd a gosod cerflun neu waith celf ar y safle fel rhan o'r nodweddion newydd. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad â'r syniad o ymgorffori gwaith celf yn y ffensys newydd ym man agored Dingle a oedd yn boblogaidd gydag ymatebwyr, yn enwedig yn y sesiynau galw heibio.

Pan ofynnwyd a hoffent weld unrhyw welliannau eraill yn cael eu cyflwyno yn Plassey Square, dewisodd 68 o'r 216 ymatebwyr wneud awgrymiadau, gellir crynhoi eu sylwadau ar sail y categorïau canlynol:


- Ardal chwarae – angen gosod ffens o'i hamgylch i'w diogelu
- Man agored – angen ei gynnal a chadw gan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar gyfer gemau â phêl
- Plannu blodau a choed - dylid gwneud hyn o amgylch ffin y safle er mwyn osgoi lleihau'r ardal chwarae
- Dodrefn – mae angen mwy o finiau i gael gwared â baw cŵn
- Draeniau – mae angen draeniau newydd gan fod yr ardal dan ddŵr yn aml

Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd angen gwneud unrhyw welliannau i'r briffordd yn Harbour View Road neu Plassey Square. Dyma'r awgrymiadau a gafwyd:

- Rheoli traffig – defnyddio mesurau arafu traffig megis cyfyngiadau cyflymder 20mya neu twmpathau cyflymder i sicrhau diogelwch plant sy'n chwarae yn agos at y ffordd brysur
- Diogelwch / hygyrchedd cerddwyr – gosod arwyneb newydd ar balmentydd, gosod croesfan i gerddwyr

### Man Agored Paget Road

Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r gwelliannau a awgrymwyd ar gyfer Man Agored Paget Road, yn debyg iawn i'r ddau fan agored blaenorol. Mae'r siart isod yn nodi hyn.



Y cynigion mwyaf poblogaidd ar gyfer Man Agored Paget Road oedd uwchraddio'r ardal chwarae a gwella dodrefn y safle. O ran dewis rhwng ardal sgwteri i blant bach ac Ardal Gemau Amldeffnydd (AGADd) nododd ymatebwyr y byddai'n well ganddynt gael Ardal Gemau Amldeffnydd (AGADd). Yr ardal sgwteri i blant bach oedd y lleiaf poblogaidd ymysg y cynigion gyda dim ond 48% yn cytuno ag ef.

Fel gyda'r manau agored eraill, gofynnwyd i'r ymatebwyr a hoffent awgrymu unrhyw welliannau eraill ar gyfer safle Paget Road. Gwnaeth y rhan fwyaf o ymatebwyr sylwadau neu awgrymiadau mewn cysylltiad ag awgrymiadau a gynigiwyd eisoes, megis:


- AGADd / ardal sgwteri i blant bach – ardal gemau amldeffnydd yn hytrach nag ardal sgwteri i blant bach;
- Ardal chwarae – uwchraddio'r offer i blant bach yn ogystal ag offer i blant iau.
- Blodau a phlanhigion – plannu blodau gwylt, ni ddylai'r gwaith plannu ychwanegol effeithio ar yr olygfa;
- Coed – dylid cynnal a chadw'r coed presennol yn hytrach na phlannu coed newydd;
- Dodrefn – angen mwy o finiau ar gyfer baw cŵn, mwy o feinciau i fwynhau'r olygfa;

- Golau – dim ond â chyfyngiadau amser y cytunwyd arnynt er mwyn osgoi tarfu ar drigolion / arwain at ymddygiad anghymdeithasol yn hwyr i'r nos;
- Mynediad – gwella mynediad ar y naill ben y parc a'r llall;
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol – a wnewch chi gloi'r parc yn y nos, mae nifer o broblemau'n cael eu hadrodd yn gyson; a'r
- Ffordd – a wnewch chi ystyried cyfyngiad cyflymder 20may neu ychwanegu croesfan sebra i'w gwneud yn ddiogelach.

Yn gyffredinol, mae'r ymatebwyr o blaid y gwelliannau a gynigir ar gyfer Paget Road.

### Maes Hamdden Cogan Ground

Yn olaf, gofynnwyd i ymatebwyr am y gwelliannau a gynigir i'r parc sglefrio presennol ym Maes Hamdden Cogan. Mae'r siart isod yn dangos yr ymateb cadarnhaol a gafwyd.



Mae'r ymateb hwn yn nodi bod hwn yn gynnig poblogaidd dros ben.

Pan ofynnwyd a ellid gwneud unrhyw welliannau eraill i Faes Hamdden Cogan gyda golwg ar wella'r ardal, gellir crynhoi sylwadau'r ymatebwyr fel a ganlyn:

- Cyfleuster sglefr-fyrddio – a fydd yn bosibl cael cyfleuster i blant iau ymarfer hefyd yn ogystal â chyfleuster i sglefr-fyrddwyr mwy profiadol yn y lleoliad hwn;
- Cyfleusterau chwarae - mwy o gyfleusterau chwarae i blant, pad sblasio efallai;
- Cyfleusterau ychwanegol – efallai y byddai offer campfa awyr agored yn fwy addas yn y lleoliad hwn, cwrt pêl-fasged; a
- Goleuadau ar hyd y llwybr, seddi i rieni i wyllo eu plant yn defnyddio'r offer, mwy o finiau.

## Sesiynau Galw Heibio

Trefnwyd pedwar sesiwn galw heibio fel a ganlyn:

- Dydd Mawrth 28 Mehefin, 6pm - 8pm, Paget Rooms;
- Dydd Mercher 6 Gorffennaf, 3pm - 5pm, Tabernacle, Plassey Street;
- Dydd Llun 11 Gorffennaf, 5pm - 7pm, The Kymin; a
- Dydd Iau 21 Gorffennaf, 11am - 1pm, Canolfan Hamdden Penarth

Cafodd y rhain, ynghyd â'r cyfeiriad gwe ar gyfer cael gwybodaeth bellach, eu dosbarthu i 4,500 o aelwydydd yn y strydoedd yng nghyffiniau'r manau agored.

Roedd y sesiynau galw heibio yn eithaf poblogaidd gyda mwy na 10 – 30 o drigolion yn bresennol ym mhob un. Roedd y rhan fwyaf o'r trigolion a fynychodd y sesiynau galw heibio yn hapus dros ben gyda'r gwaith arfaethedig ym manau agored ym Mhenarth. Roedd llawer yn teimlo bod y parciau wedi'u hesgeuluso ers tro byd a bod angen eu hailwampio. Nodwyd rhai problemau a phryderon a grynhowyd isod.

### The Dingle, Windsor Road

- Mae'r angen i'r ffens ar Windsor Road fod yn fwy deniadol i annog rhagor o bobl i ddefnyddio'r parc
- Hoffi'r syniad o osod meinciau, yn enwedig meinciau picnic
- Gall sbwriel fod yn broblem, felly mae angen mwy o finiau
- Dylai unrhyw gelfi gyd-fynd â thema naturiol y man agored

### Plassey Square

- Mae draeniau yn broblem fawr, mae angen eu gwella cyn ychwanegu unrhyw gyfleusterau newydd
- Mae angen gosod ffens o amgylch yr ardal chwarae
- Mae palmentydd wedi cael eu difrodi yn ystod gwaith adeiladu ac mae angen eu gwella
- Byddai mesurau arafu traffig yn cael eu croesawu
- Byddai cael seddi i fwynhau'r golygfeydd yn dda hefyd
- Cynigion ar gyfer offer chwarae – golau, nid siglenni diogelwch
- A wnewch chi sicrhau ardal helaeth ar gyfer chwarae agored

### Paget Road

- Mae sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gallu bod yn broblem yma, mynegwyd rhai pryderon y gallai goleuadau annog hyn
- Mae'r syniad o gael Ardal Gemau Amldefnydd yn fwy poblogaidd nag ardal sgwteri
- Croesawir blodau gwyllt ger y llwybr, angen gwella'r llwybrau



- Gwella'r manau i fwynhau'r golygfeydd ac efallai gosod bwrdd gwybodaeth fel bod pobl yn deall yr hyn maent yn ei weld ar draws y nenlinell
- Angenocio'r coed ymhellach, peidiwch â phlannu mwy
- Ardal chwarae ar thema'r ddraig (i ddatlu llwyddiant Cymru yn Euro 2016)

### **Maes Hamdden Cogan**

- Cynnwys sglefr-fyrddwyr lleol i sicrhau eich bod yn cael mewnbwn ganddynt ar gyfer y dyluniad newydd
- Dylai'r cyfleusterau fod yn addas ar gyfer gwahanol grwpiau oedran
- Byddai murlun neu graffiti proffesiynol yn dda
- Awgrymwyd lleoliad posibl arall ar gyfer parc sglefr-fyrddio, ymhellach i ffwrdd o'r tu cefn i'r ganolfan hamdden

Mae hyn yn dangos bod ymatebion i'r arolwg a sylwadau a wnaed yn y sesiynau galw heibio yn gyson.

### **Ymgysylltu arall**

Bu rhai aelodau o'r grŵp, Grŵp Ieuencid Penarth, yn gwneud gwaith ymgynghori pellach gyda phobl ifanc yng Ngŵyl Penarth. Ymatebodd 32 o bobl rhwng 11 – 18 oed i'r ymgynghoriad yn yr ŵyl. Ceir crynodeb o'u hymatebion isod.

### **The Dingle, Windsor Road**

- Y gwelliannau mwyaf poblogaidd ymysg ymatebwyr yn yr ŵyl oedd gosod offer campfa awyr agored ar hyd y llwybr cerdded, roedd 79% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r awgrymiad hwn; roedd 86% o ymatebwyr yn cytuno â gwella dodrefn y safle; ac roedd 83% o ymatebwyr yn cytuno â chreu ardaloedd blodau gwyllt.
- Pan ofynnwyd iddynt awgrymu gwelliannau eraill awgrymodd ymatebwyr wneud yr ardal yn ddiogelach i bobl yn mynd â chŵn am dro a beicwyr a gwella'r arwyddion o gwmpas y parc.
- Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwella Windsor Road yn cynnwys ychwanegu rhagor o groesfannau a gwella cyfleusterau parcio i drigolion.

### **Man Agored Plassey Square**

- Roedd 90% o ymatebwyr yn cytuno a'r cynnig i uwchraddio'r ardal chwarae yn Plassey Square; roedd 76% o blaid gwella dodrefn y safle hefyd.
- Awgrymwyd gosod pyst gôl fel rhan o'r gwelliannau yn yr ardal hon hefyd, yn ogystal â rheiliau i atal peli rhag taro yn erbyn ceir.

### **Paget Road**

- Roedd 79% o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i uwchraddio'r ardal chwarae yn Paget Road; roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr o blaid uwchraddio'r ardal

chwarae pêl a'r gweddill o blaid creu ardal sgwteri i blant bach gyda 46% yn dewis yr AGADd a 43% yn dewis yr ardal sgwteri.

- Roedd yr awgrymiadau eraill yn cynnwys ychwanegu mynedfa ychwanegol i'r parc ac ychwanegu llithren ar y llethr/ardal werdd.

### **Maes Hamdden Cogan**

- O'r 30 o bobl a ymatebodd i'r cynigion hyn, roedd 77% yn cytuno gyda'r syniad o gyflwyno rampiau newydd; ac roedd 73% yn hoffi'r syniad o gynyddu maint yr ardal sglefr-fyrddio a diweddarau ac ehangu'r cyfleusterau.
- Roedd 3 o'r 32 o ymatebwyr am gael eu cynnwys yn y grŵp defnyddwyr a fydd yn helpu i ddylunio'r cyfleusterau newydd.

### **Casgliadau**

I grynhoi, roedd ymatebwyr yn ymddangos yn hapus iawn gyda'r rhan fwyaf o'r gwelliannau arfaethedig ar gyfer y manau agored dan sylw yng Ngogledd Penarth, fel y nodir yn y trosolwg yn Atodiad 6. Awgrymir y dylid ystyried sylwadau penodol, megis y broblem gyda'r draeniau a godwyd mewn perthynas â Plassey Square, cyn bwrw ymlaen â'r cynlluniau. Mae'n amlwg bod angen i'r Cyngor gydweithio â sglefr-fyrddwyr lleol a phartïon â diddordeb i ddatblygu ymhellach y cynlluniau ym Maes Hamdden Cogan. Yn gyffredinol, y farn gyffredin yw y dylid bwrw ymlaen a'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a nodwyd.

### **Atodiadau**

[Atodiad 1](#) – Man Agored Dingle

[Atodiad 2](#) – Man Agored Plassey Square

[Atodiad 3](#) – Man Agored Paget Road

[Atodiad 4](#) – Maes Hamdden Cogan

[Atodiad 5](#) – Trosolwg o'r Cynllun

[Atodiad 6](#) – Trosolwg o'r Ymatebion

## Atodiad 6



### Gwelliannau i Barthau Agored Gogledd Penarth

Mae'r arolwg hwn wedi ei rannu i mewn i bedair adran, gyda phob adran yn gofyn am eich barn ar y gwelliannau arfaethedig i fannau agored yng Ngogledd Penarth. Mae croeso i chi ond yn ymateb i'r adran(nau) sy'n berthnasol i chi.

#### Parth Agored y Dingle, Windsor Road

*Gwelliannau arfaethedig i'r amgylchedd*

Ydych chi'n cytuno gyda'r gwelliannau arfaethedig mae'r Cyngor wedi eu nodi? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

79 (45.4%)	Gosod cyfarpar campfa awyr agored ar hyd ymyl y llwybr	160 (92.0%)	Creu ardaloedd blodau gwyllt a gwella cynefinoedd sy'n fyuddiol i fywyd gwyllt
133 (76.4%)	Uwchraddio rheiliau ar derfyn y parc	114 (65.5%)	Gweithio ar y coed i godi'r canopi er mwyn gwneud y parc yn oleuach
147 (84.5%)	Gwella dodrefn awyr agored y safle (biniau sbwriel, seddi a.y.yb.)		

Oes unrhyw welliannau eraill yr hoffech eu gweld yn y parc hwn?

59 (100.0%)

Oes unrhyw welliannau i Windsor Road y gellid eu hystyried i wella'r ardal yn ei chyfanrwydd?

50 (100.0%)

#### Parth Agored Plassey Square

*Gwelliannau arfaethedig i'r amgylchedd*

Ydych chi'n cytuno gyda'r gwelliannau arfaethedig mae'r Cyngor wedi eu nodi? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

158 (88.3%)	Uwchraddio'r ardal chwarae	111 (62.0%)	Gosod rheilen / rheiliau isel ger yr ardal chwarae neu mewn rhannau eraill o'r parth agored
156 (87.2%)	Gwella dodrefn awyr agored y safle (biniau sbwriel, seddi, meinciau picnic a.y.b.)	68 (38.0%)	Ystyried ymgorffori gwaith celf o fewn nodweddion newydd
128 (71.5%)	Plannu rhagor o goed a chreu ardaloedd blodau gwyllt	106 (59.2%)	Mae Adran Datblygu Chwarae'r Cyngor yn ystyried cyflwyno nifer o gynlluniau chwarae mewn parciau lleol
78 (43.6%)	Gosod llwybrau troed newydd		
119 (66.5%)	Uwchraddio'r rhodfa o amgylch y parth agored		

Oes unrhyw welliannau eraill yr hoffech eu gweld yn y parc hwn?

68 (100.0%)

Oes unrhyw gwelliannau i'r ffordd fawr ger Harbour View Road neu Plassey Square a allai wella'r ardal yn ei chyfanrwydd?

48 (100.0%)

## Parth Agored Paget Road

*Gwelliannau hamdden ac amgylcheddol arfaethedig*

Ydych chi'n cytuno gyda'r gwelliannau arfaethedig mae'r Cyngor wedi eu nodi? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

159 (88.8%)	Uwchraddo'r arda hwarae Ia (at 4-12 oed) ar safle'r ardal chwarae bresennol	155 (86.6%)	Gwella dodrefn awyr agored y safle (biniau, sbwriel, seddi, meinciau picnic a.y.y.b.)
126 (70.4%)	Uwchraddo'r ardal cicio pêl i fod yn ardal gemau amlbwrpas (aga) neu	141 (78.8%)	Uwchraddio'r rhodfa drwy'r parth agored, ei gwneud yn llai ffurfiol a'i gwahanu wrth y ffens pan fo'r gofod yn caniatáu hynny
86 (48.0%)	Creu ardal sgwteri bach i blant (4-12 oed) a'i chynnwys yn ardal chwarae plant	118 (65.9%)	Creu gwylfa ychwanegol gyda sedd
132 (73.7%)	Plannu rhagor o goed a chreu ardaloedd blodau gwylt	110 (61.5%)	Gosod goleuadau gyda terfynau amser a gytunwyd

Oes unrhyw welliannau eraill yr hoffech eu gweld yn y parc hwn?

73 (100.0%)

## Tir Hamdden Cogan

*Gwella adnoddau'r parc sglefrio*

Ydych chi'n cytuno gyda'r gwelliannau arfaethedig mae'r Cyngor wedi eu nodi? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

130 (89.0%)	Uwchraddio ac ymestyn y parc sglefrio cyfredol	107 (73.3%)	Defnyddio arwyneb concrit sy'n dawelach
105 (71.9%)	Cynyddu maint yr ardal	101 (69.2%)	Gwella mynediad i'r parc
108 (74.0%)	Gosod rampiau newydd	119 (81.5%)	Gosod goleuadau newydd gyda terfynau amser gytunwyd

Oes unrhyw welliannau eraill yr hoffech eu gweld yn y parc hwn?

50 (100.0%)

Hoffai'r Cyngor sefydlu grŵp o ddefnyddiwr a fu'n helpu i ddylunio'r parc sglefrio newydd. Hoffech chi fod yn rhan o'r grŵp hwn?

18 (12.7%) Hoffwn

124 (87.3%) Na hoffwn

Enw	18 (100.0%)
Ebost	34 (100.0%)
Rhif ffôn (opsiynol)	25 (100.0%)

Manteisiwch ar y cyfle hwn i rannu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill sydd gennych am y prosiect hwn .  
56 (100.0%)

Os hoffech chi gael gwybod am unrhyw sesiynau galw i mewn sy'n digwydd , rhowch eich manylion cyswllt .

Enw	70 (100.0%)
Ebost neu cyfeiriad	76 (100.0%)
Rhif ffôn (opsiynol)	33 (100.0%)

## Amdanoch chi

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i'n helpu i ddeall pwy yn y gymuned yn defnyddio'r cyfleusterau hyn.

Beth yw eich rhyw?

86 (41.3%) Gwryw	3 (1.4%) Arall
119 (57.2%) Benyw	

A oes cyflwr corfforol/iechyd meddwl, salwch neu anabledd arnoch sy'n cyfyngu ar eich gweithgareddau o ddydd i ddydd, ac wedi parhau neu'n debyg o barhau am 12 mis neu ragor?

2 (1.0%) Oes - bydd yn cyfyngu gryn dipyn arnaf	178 (89.9%) Nac oes
13 (6.6%) Oes - bydd yn cyfyngu rywfaint arnaf	5 (2.5%) Dwy i ddim am ddweud

Beth yw eich oedran?

0 (0.0%) O dan 11	5 (2.4%) 19 - 24	119 (57.5%) 35 - 54	6 (2.9%) 75+
9 (4.3%) 11 - 18	35 (16.9%) 25 - 34	33 (15.9%) 55 - 74	

Côd post	186 (100.0%)
----------	--------------